

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw ag Anwen Williams (Peniel) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei brawd y penwythnos diwethaf. Cyflwynwn hwy i ofal a thangnefedd yr Arglwydd a gweddiwn y bydd Duw yn cysgodi drostynt. Yn yr un modd, cydymdeimlwn â Margaret Jones (Henllan) a'r teulu oll yn dilyn marwolaeth ei mam ganol yr wythnos. Hyderwn y byddant hwythau yn profi cariad Duw yn eu hamgylchynu ac yn gysur a chymorth iddynt.
- Cofiw'n yn ein gweddiâu hefyd am Elwy Ll. Evans (Tanyfron) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Hyderwn y bydd yn profi daioni'r Arglwydd yn ei gynnal yn ei angen a gweddiwn am adferiad iechyd buan iawn iddo. Deallwn fod Brychan Clwyd Edwards (Groes) wedi treulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty hefyd yr wythnos ddiwethaf. Anfonwn ein cofion ato yntau a phawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn.

Yr Ysgol Sul

Un o'r cymwynasau gorau y medrwn ei gynnig fel eglwys yw dysgu gair Duw i bob cenhedlaeth. Llongyfarchiadau i bawb ohonoch, yn blant ac oedolion, fu'n paratoi y Gwaith Cwrs a osodwyd gan yr Henaduriaeth eleni, a chael eich gwobrwyo yng Nghapel y Rhiw, Pwllglas nos Wener. Diolchwn am y rhai sy'n dysgu'r plant a'r oedolion yn yr Ysgolion Sul, a chodwn hwy yn ein gweddiâu o ddiolchgarwch i Dduw.

I ddod

- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 12fed yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2015-16. Arweinydd: Nia Wyn Jones, Gellifor. Croeso i bawb.
- **CYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
 - **Penwythnos Plant 8 – 12 oed:** Mehefin 17-19
 - **Picnic Mawr 5 – 11 oed:** Gorffennaf 2
 - **Cwrs Ieuenctid i flynyddoedd 7 – 11:** Gorffennaf 25-29
 - **Anhrefn Awst 8 – 12 oed:** Awst 8-11
 - **Souled Out 15+ oed:** Awst 13-18
 - **Aduniad Llanw:** Medi 23-24

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 22^{ain} Mai 2016

Darlleniad y Dydd

Eseia 1:17-20

(BCND tud.619 / BCN tud.566)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso eto i oedfaon y Sul wedi'r Pentecost a gobeithio y cewch fendith o geisio Duw heddiw. Mae'r proffwyd Eseia yn ein hannog i 'geisio yr Arglwydd tra gellir ei gael' a 'galw arno tra bydd yn agos' (Eseia 55:6) – cymryd y cyfle newydd yma rydan ni wedi ei gael i siarad hefo Duw a gwranddo arno trwy'r Beibl ac mewn gweddi.

Clywsom nos Sul gan Alun am rai o brofiadau diwygiad 1904 ac mae'n ddychryn meddwl fod canrif a mwy wedi mynd heibio ers y dyddiau hynny. Dyddiau 'Pentecost' lle bu'r Ysbryd ar waith mewn ffordd ryfeddol a grymus. Mae'r cwbl ond megis atgof pell i'm cenhedlaeth i, ond yn atgof pellach fyth i genhedlaeth fy wyresau. Tybed a fydd yr Ysbryd yn cael ei anfon yn yr un modd eto atom ni fel Cymry Cymraeg?

Rwy'n cofio un brawd annwyl - Willie John - a oedd yn byw mewn tŷ teras ym mhentref Tonmawr ger Ponrhydyfen lle'r oedd fy nhad yn weinidog cyn dod i Lansannan. Roedd Willie John wedi bod yn löwr tanddaear ac wedi hen galedu i ffyrdd y byd. Cyn y diwygiad, byddai'n rhegi ac yn meddwi ac yn byw o un dydd cyflog i'r nesa. Ond daeth dan ddylanwad yr Ysbryd Glân yn ystod y diwygiad, ac fel cannoedd o'i gyfoedion, rhoddodd ei fywyd i'r Arglwydd Iesu ac fe newidiodd ei fywyd yn gyfan gwbl. Rwy'n ei gofio fel dyn glandeg ac yn eistedd yn y gegin yn diolch i'r Arglwydd am ei gadw, am ei faddeuant, am werth y gwaed ac am freintiau cael tystiolaethu i eraill a rhannu'r Efengyl. Roedd pawb yn ei 'nabod gan y byddai yn trafaelio ar y bws i bobman ac yn siarad am Iesu, ei Waredwr, gyda phawb.

Rwy'n ei gofio yn eistedd yn y capel hefyd. Es yno i bregethu, pan oeddwn yn fy ugeiniau cynnar, ar Salm 25. Eisteddai Wncl Willie yn y sêd fawr yn porthi'r darlleniad, a phan fyddai'r emynau yn cael eu canu, byddai'n ailadrodd y rheini o'r cychwyn, nid o'r llinell olaf ond un! Pan wnaed y casgliad, fe gychwynnodd ganu "Yes, Jesus loves me ... the Bible tells me so" yn y Saesneg a phawb yn ymuno ag o wrth iddo fwrw i'r addoliad. Byddai'n ei wythdegau erbyn hynny, mae'n siŵr.

Mae profiad Pentecost a diwygiad ysbrydol yn brofiad sy'n ein newid am weddill ein hoes. Nid tân siafins oedd tröedigaeth Willie John, ond profiad o 'ras yn dilyn gras' a chynhesrwydd ei berthynas gyda'r Arglwydd yr un mor danbaid y Sul hwnnw ag yr oedd flynyddoedd ynghynt yn anterth ei brofiad eirias. O 'gael' yr Arglwydd, mae'r Arglwydd yn aros yn ffyddlon ac yn 'agos'. Y brys i ni ydi cymryd y cyfle tra mae o'n cael ei gynnig i ni i'w dderbyn a'i groesawu i'n calon. Ceisiwn yr Arglwydd, a rhown gyfle i'r Ysbryd ateb!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Darlleniad Wythnos Nesaf

Eseia 56:1-2 (BCND tud.672 / BCN tud.613)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 22^{ain}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher – 25^{ain}
lau – 26^{ain}
- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
 - **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
 - **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
 - **Cyhoeddiadau'r Gair yn Iansio'r gyfrol 'Dehongli Meddwl Paul'** gan Elfed ap Nefydd Roberts yng Nghanolfan Capel Mynydd Seion, Abergele, am 7.00. Y gyfrol hon fydd Maes Llafur Ysgol Sul yr Oedolion o fis Medi ymlaen. Croeso i bawb.
- Gwener – 27^{ain}
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 29^{ain}
- **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 – y tro hwn yn Henllan. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd y Parch. John Derek Rees yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 22^{ain}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 29^{ain}
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma – 22^{ain}
- Bydd Sarah yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth – 24^{ain}
- Bydd y Pwyllgor Adeiladau yn cyfarfod am 7.30. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 29^{ain}
- Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwys Bro Aled. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 22^{ain}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 29^{ain}
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 22^{ain}
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00 a bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw aelodau Tanyfron o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwys Bro Aled.
- Sul nesaf – 29^{ain}
- Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw aelodau Capel y Waen o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwys Bro Aled.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 22^{ain}
- Bydd Dr Andras Iago yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw aelodau Saron o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwys Bro Aled. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Saron a chynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 29^{ain}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw aelodau Peniel o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwys Bro Aled. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 22^{ain}
- Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwys Bro Aled. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 29^{ain}
- Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Manylion Cyswilt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07849 591163
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07900 308461
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*